# Dathlu 10 mlynedd o RCPCH &Us - 2025 Pecyn cyfathrebu

***"Mae RCPCH &Us wedi fy helpu i gysylltu â phobl ifanc eraill sydd â chyflyrau meddygol, ac mae'r cysylltiad hwn wedi helpu gyda'r ynysigrwydd yr wyf wedi'i deimlo ar adegau yn dilyn fy niagnosis. Mae cysylltu ag eraill yn y modd hwn wedi ein galluogi i gysylltu ein holl brofiadau gyda'i gilydd a helpu i wneud newidiadau pwerus i eraill yn y dyfodol."***

Mae RCPCH &Us yn bodoli i helpu i sicrhau bod llais plant, pobl ifanc a theuluoedd ar draws y DU ac yn fyd-eang yn gwneud gwahaniaeth i iechyd a gofal iechyd plant, trwy ymgysylltu gweithredol sy'n cynnwys llunio polisi ac eiriolaeth, llywio addysg, hyfforddiant ac ymarfer ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a rhaglenni gwella ansawdd.

Yn 2025, byddwn yn dathlu llwyddiant RCPCH &Us, gan arddangos llawer o'r lleisiau dan sylw a nodi sut y gallwn gryfhau iechyd a gofal iechyd plant yn well yn y degawd i ddod.

Ymunwch â ni wrth i ni ddathlu 10 mlynedd o RCPCH &Us yn arwain y ffordd ym maes iechyd plant.

## YR HANFODION

**Hashnod:** #AndUs10

| Instagram | X (Twitter gynt) | Facebook | LinkedIn |
|---|---|---|---|
| @rcpch_and_us | @rcpch_and_us | @RCPCHandUs | RCPCH |

## EIN HAMCANION

Ein nod am y flwyddyn yw:

1. **Dathlu pa mor bell rydyn ni wedi dod:** Ers i ni ddechrau yn 2015, mae dros 16,000 o blant, pobl ifanc ac aelodau o'r teulu wedi gwirfoddoli am filoedd o oriau ar brosiectau a gweithgareddau yn edrych ar brofiadau gyda chyflyrau hirdymor fel epilepsi neu feysydd polisi iechyd fel ansawdd aer dan do, gan hyd yn oed adolygu tystiolaeth ac ysgrifennu eu hargymhellion a'u hymatebion eu hunain ar bynciau fel COVID-19, ar yr hyn sy'n cadw plant a phobl ifanc yn iach ac yn hapus neu eu hanghenion ar gyfer gweithlu'r dyfodol – rydym yn dathlu ymgysylltiad cyfoethog y 10 mlynedd diwethaf.

2. **Cynnal gwelliannau i wasanaethau iechyd i blant a phobl ifanc:** Er bod mynegi ymrwymiad i RCPCH &Us yn ganmoladwy, mae'n hanfodol cynnwys plant a phobl ifanc â chyflyrau iechyd, ynghyd â'u cyfoedion, yn y gwaith o wella gwasanaethau, dylunio a newid systemau o fewn y GIG. Dylid gwneud hyn drwy ddull sydd wedi'i wreiddio, yn seiliedig ar hawliau. Rydym yn annog y sector iechyd i fabwysiadu'r ymarfer hwn. Archwiliwch ein prosiect Safonau Ymgysylltu, sy'n codi ymwybyddiaeth o arferion ymgysylltu da yn y sector, a'n Hacademi Ymgysylltu, sy'n cynnig yr hyfforddiant angenrheidiol i roi'r arferion hyn ar waith yn effeithiol.

3. **Datgloi degawd nesaf RCPCH &Us:** Rydym am sicrhau bod systemau iechyd yn ymwybodol o'u rôl ac fel cynhalwyr dyletswydd, i gefnogi plant a phobl ifanc ledled y wlad i gael mynediad at wasanaethau iechyd a bod systemau'n diwallu eu hanghenion, bod gan blant a phobl ifanc a'u heiriolwyr y cyfarpar i herio, siapio a newid gofal iechyd am genedlaethau i ddod, a'u galluogi i wneud hynny.

## SUT I'N CEFNOGI

Fel rhan o'n dathliadau, rydym yn gofyn am eich cefnogaeth drwy amrywiaeth o ffyrdd i gymryd rhan. Penderfynwch faint o amser y gallwch chi ei neilltuo a chymryd rhan.

### Fy nymuniad ar gyfer iechyd plant yn ystod y deng mlynedd nesaf yw...

**Beth:** Rydym yn gofyn i chi rannu gyda ni beth yw eich dymuniad ar gyfer iechyd plant yn ystod y deng mlynedd nesaf. Gadewch i ni eu defnyddio i ysbrydoli ein gilydd a dangos yr effaith y gall ac y mae lleisiau plant a phobl ifanc yn ei chael o fewn gofal iechyd ledled y wlad.

**Pryd:** Byddwn yn dechrau casglu eich dymuniadau o 28 Ebrill 2025 i 16 Mai 2026.

| | |
|---|---|
| **Oes gennych chi 10 munud?** | Ar y cyfryngau cymdeithasol, rhannwch eich dymuniad ar gyfer iechyd plant yn ystod y deng mlynedd nesaf neu sut y byddwch yn cefnogi ac yn chwyddleisio lleisiau plant a phobl ifanc ym maes iechyd. |
| **Oes gennych chi 1 awr?** | Byddwch yn greadigol! Beth am wneud ffilm fer, ysgrifennu cerdd, neu greu cân. Gallwch ei chyflwyno i ni yn and_us@rcpch.ac.uk neu ei rhannu ar eich sianeli eich hun. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ein tagio ni. |
| **Oes gennych chi ychydig oriau i helpu?** | Os ydych yn sefydliad, a allwch chi siarad ag amrywiaeth o blant a phobl ifanc i glywed beth arall y gall gwasanaethau iechyd ei wneud i roi'r gofal gorau posibl iddynt. |

## CYNNWYS I'R CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Gallwch lawrlwytho'r holl asedau ar gyfer y dathliad 10 mlynedd yma. Mae rhywfaint o gynnwys templed i'w weld isod.

**Cynnwys cyffredinol**

| **Llwyfan** | **Copi** |
|---|---|
| **Cyfryngau cymdeithasol** | Yn 2025, mae RCPCH &Us yn dathlu 10 mlynedd o arwain y ffordd ym maes iechyd plant, a thros 16,000 o wirfoddolwyr ers mis Ebrill 2015. Dysgwch sut gallwch chi ddathlu'r achlysur hwn yn www.rcpch.us. #AndUs10 |
| **Gwefan** | Mae RCPCH &Us yn chwyddleisio lleisiau plant a phobl ifanc i effeithio ar iechyd a gofal iechyd plant, trwy raglenni ymgynghori ac ymgysylltu, gan eu grymuso i hysbysu, dylanwadu a llunio gwell gofal, canlyniadau gwell, a phediatregwyr gwell.<br><br>Yn 2025, byddwn yn dathlu 10 mlynedd a thros 16,000 o wirfoddolwyr ers mis Ebrill 2015. Gan arddangos y lleisiau niferus dan sylw a nodi sut y gallwn gryfhau iechyd plant yn well yn ystod y degawd nesaf.<br><br>Dysgwch fwy ac ymunwch â'r dathliadau yn www.rcpch.us. |